**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Ystafell Bwyllgor 2 - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Iau, 27 Medi 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | P R Hood-Williams | P K Jones |
| J W Jones | I E Mann | M Sherwood |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Scrutiny Officer |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M H Jones, B J Rowlands a/ac D W W Thomas
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

2 **Cofnodion.**

- Cymeradwywyd

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- Dim

4 **Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 1af 2018/19**

- Roedd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yn bresennol i gyflwyno Adroddiad Monitro Chwarter 1

- Mae'r rhan fwyaf o ddangosyddion wedi gwella
- Diogelu
- AS9 - nid yw'r asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cyrraedd y targed o hyd, ond rhagwelir gwelliant gan fod tîm newydd ar waith
- CFS18 - mae cynnydd o 4% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal
- CFS19 - ceir gostyngiad bach yn nifer y plant sydd ar y rhestr amddiffyn plant
- CFS20 - mae peth gwelliant o ran nifer y plant y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt
- Mae AS11 a CFS14 (ymysg eraill) yn dangos gostyngiad yn swmp y gwaith
- Mae lefelau galw uchel yn parhau ond mae gostyngiad yn swmp y gwaith - eir ar drywydd hyn gyda'r Pennaeth Gwasanaeth
- Addysg a Sgiliau
- BBMA4 - bydd y rhan fwyaf o brentisiaethau'n dechrau ar ddiwedd Chwarter 2 i gyd-fynd â dechrau'r flwyddyn academaidd
- POV07- disgwylir cyflawni nifer yr wythnosau o hyfforddiant a chyflogaeth a grëwyd gan y Tu Hwnt i Frics a Morter erbyn diwedd y flwyddyn, mae dyddiadau dechrau'n amrywio gyda phrosiectau
- Economi ac Isadeiledd
- WMT009B - nid oedd y gwastraff dinesig a gasglwyd, a oedd yn cynnwys biowastraff i'w gompostio, wedi cyrraedd y targed - oherwydd amrywiadau tymhorol ac effaith y tywydd
- EC5 - nid oes data ar gyfer yr arwynebedd llawr masnachol a grëwyd am ei fod yn DP newydd ond fe'i disgwylir mewn chwarteri diweddarach
- Tlodi
- HBCT01a/b - mae cyflymder cyfartalog prosesu hawliadau newydd a phresennol o fewn y targed o hyd ond mae'r amser a gymerir yn cynyddu - rhaid mynd ar drywydd hyn gyda'r Pennaeth Gwasanaeth
- POV05 - mae sicrhau hawliadau budd-dal wedi gostwng oherwydd nifer yr achosion sy'n cael eu gohirio/hoedi
- Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol
- CHR002 - mae nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch yn cyrraedd y targed ond mae'r targed wedi cynyddu ers y llynedd
- FINA6 - mae arbedion refeniw rhagweledig y gronfa gyffredinol yn dangos gwelliant ers y llynedd ond mae problemau parhaus yn dal i fod
- Nid oes fawr ddim pwynt pennu targedau estynnol os nad oes cynllun ar waith i'w cyflawni
- Mae'r 6ed amcan corfforaethol lles yn mynd drwy'r broses gymeradwyo a disgwylir iddo fynd gerbron y cyngor ym mis Hydref am benderfyniad terfynol

## 5 Adroddiad Adolygiad Cydraddoldeb 2017-18

- Roedd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol ac Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell (Pobl) yn bresennol i gyflwyno Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb 17/18
- Bydd cynllun cyfredol ar waith tan 2020 ac yna mae bwriad i greu un newydd
- Y nod yw symleiddio'r amcanion
- Ar hyn o bryd mae'r ymagwedd yn 'fylchog'

- Ystyrir creu nifer llai o nodau strategol â llinyn cyson yn rhedeg drwyddynt
- Ar hyn o bryd mae argaeledd data gwaelodlin yn wael
- Nid oes rhaid i staff ddarparu data ar nodweddion gwarchodedig felly mae'n anodd i AD ei gasglu
- Mae grwpiau mwy amrywiol o lunwyr polisïau a phenderfynwyr yn arwain at well penderfyniadau
- Mae profiad bywyd ehangach a gwahanol yn cyfrannu at hyn hefyd
- Cafwyd cynnydd ar yr amcanion, yn arbennig penodi Cynghorwyr Hyrwyddo - gan obeithio am ymagwedd gyson
- Rhaid mynd i'r afael â stereoteipio rhywiau
- Cyfyngir bechgyn a merched gan y stereoteipio hwn
- Ar hyn o bryd rydym yn ystyried datblygu arweiniad i ysgolion
- Mae hyn hefyd yn cyfrannu at fylchau cyflog rhwng y rhywiau
- Mae fforymau gweithredol ar gael o hyd i'r rhai â nodweddion gwarchodedig, e.e. y Grŵp Cyswllt Anabledd, ac mae'r grwpiau hyn yn cyfrannu at gynllunio, mynediad i ymgynghoriadau etc. - mae'n ffordd bwysig i'r cyngor glywed am unrhyw rwystrau
- Mae cyfle i gulhau amcanion a'i wneud yn strategol
- Bydd sut mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â hyn yn helpu i lunio'r amcanion
- PJ - Adroddiad gwych, cynhwysfawr iawn, ond nid oes niferoedd na data ac felly nid oes mesuriadau llwyddiant. Mae angen y ffigurau arnom
- PHW – A oes rôl i wahaniaethu cadarnhaol er mwyn cyrraedd y nod?
- MS - Rydyn ni'n ei alw'n weithredu cadarnhaol - mae angen timau cymwys ag amrywiaeth o brofiad, cefndiroedd a safbwyntiau. Rhaid i chi lenwi'r bylchau drwy recriwtio'n gadarnhaol er mwyn gwneud y tîm yn fwy amrywiol
- PHW – Sut rydym ni'n hyfforddi rheolwyr fel eu bod yn meddu ar y sgiliau perthnasol?
- RR - Mae rheolwyr yn ymgymryd â hyfforddiant amrywiaeth ond mae cyfyngiad ariannol ar hyfforddiant rheoli cyffredinol
- JJ - Onid oes ffigur targed eto ar gyfer cyflawniad?
- Mae gwaith i'w wneud o hyd i sefydlu'r targedau
- Torrwyd yr hyfforddiant dros y blynyddoedd a gallwch weld effaith hyn yn y pen draw
- Mae ansawdd yr hyfforddiant yn bwysig, mae angen symleiddio'r adroddiad a bydd rhaid penderfynu ynghylch a fydd y nodau'n benodol i wasanaeth neu'n rhai ar draws y cyngor
- Mae angen i'r 3ydd sector gael mewnbwn; mae'n bwysig sut mae eraill yn ystyried ein hymagwedd at y materion hyn
- Rydym wedi ymateb yn ddiweddar i CLlLC ond mae angen i ni wybod pa mor hawdd yw hi i gael mynediad at y drws ffrynt (rhwystrau corfforol/cymdeithasol/ieithyddol)
- Mae angen edrych ar y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Lles er mwyn gwreiddio cydraddoldeb
- Efallai bydd prosiectau penodol, er enghraifft, ymgynghoriad sy'n fylchog ac yn anghyson

- Bydd trafodaeth ar draws sefydliadau er mwyn datblygu cynllun newydd, a bydd staff yn rhan o hyn
- PJ – (t75 Priffyrdd a Chludiant – Llwybrau Mwy Diogel) beth mae 'mwy diogel' yn ei olygu? Dylai hyn gynnwys llygredd aer am ei fod yn peri cryn bryder mawr o ran datblygiad corfforol pobl ifanc
- Mae hyn yn gysylltiedig â thlodi - nid yw bod ar incwm isel yn nodwedd warchodedig, ond mae'r Cynllun Lles yn cyfeirio at y mater hwn
- Mae darn o waith wedi'i wneud felly dylai gwaith cydraddoldeb ystyried incwm isel a disgwyliad iechyd
- Bydd y Cynllun Cydraddoldeb newydd yn cyfeirio at unrhyw flaenoriaeth gorfforaethol newydd a'r Cynllun Lles a bydd hefyd yn cyfeirio at anghydraddoldeb iechyd a chyllid, e.e. byw mewn ardaloedd trefol â llygredd aer
- Cafwyd gwelliant yng Nghwm Tawe isaf ond mae llygredd ffyrdd yn dal yn broblem

6 **Cynllun Gwaith 2018/19**

- Efallai bydd rhai cyfarfodydd yn hwy gan fod eitemau ychwanegol yn y cynllun gwaith yn gyffredinol
- Efallai y daw eitemau ychwanegol i'r panel - adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
- Rhoddir eitem yr Adolygiad Comisiynu ar yr amserlen wedi i Gadeirydd y Rhaglen Graffu weld y trosolwg cyffredinol. Bydd CH yn rhoi cyngor ar yr hyn y dylai'r adroddiad ganolbwyntio arno.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00pm

**Cadeirydd**